

# Amlinelliad o'r Swydd

## Teitl y Swydd:

Cynorthwydd Technegol  
Dros Dro

## Sail:

Dros Dro

## Cyflog:

Gradd 9

## Lleoliad:

Lleoliadau Awen

## Yn atebol i:

Rheolwr Technegol

## Yn gyfrifol am:

Ddim yn berthnasol

## Eich Rôl:

Helpu gyda gweithrediadau technegol mewn perthynas â lleoliadau Awen a pherfformiadau eraill, gan gynnwys goleuadau, sain, cyfryngau clyweledol, a pyrotechneg.

Byddwch hefyd yn helpu gosod a symud offer ar gyfer digwyddiadau.

# Yn y rôl hon, byddwch yn gwneud y canlynol:

- Darparu cymorth technegol ar gyfer digwyddiadau ar draws Lleoliadau Awen yn unol â'r safonau gofynnol yn unol â gofynion Iechyd a Diogelwch.
- Helpu cwsmeriaid mewn perthynas â dylunio llwyfannu, goleuadau, cyfryngau clyweledol a sain ar gyfer pob digwyddiad.

- Cefnogi cwsmeriaid i sefydlu eu gofynion, gan helpu wrth iddynt gyrraedd, gosod llwyfannau cludadwy, a gadael, a chynnal digwyddiadau.
- Cyfrannu at redeg yr adeilado ddydd i ddydd pan fo angen, gan gynnwys tasgau cynnal a chadw sylfaenol yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Technegol.

---

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch esgeulustodau yn y gwaith effeithio arnynt
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn rôl y swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerthoedd ym mhopeth a wnech.

Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn unol ag arferion gorau a deddfwriaeth.

- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n rhan o'r swydd hon, ac efallai y bydd angen eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

# Manyleb y Person

## Y Person (NODIR Y MEINI PRAWF HANFODOL FEL (H):

- Cryn flaengaredd, dyfeisgarwch a hyblygrwydd, ac ymagwedd hunangymhellol (H)
- Meddylwr arloesol gydag ymagwedd seiliedig ar atebion (H)
- Ymagwedd gadarnhaol ac ysgogol i gefnogi cydweithwyr a thimau i gyflawni nodau ac amcanion cyffredin (H)
- Yn gweithio'n dda dan bwysau ac yn gallu rheoli blaenoriaethau lluosog yn effeithiol o fewn terfynau amser caeth (H)
- Yn gosod safonau perfformiad uchel i chi'ch hun ac i eraill wrth fodloni disgwyliadau cwsmeriaid mewnol ac allanol (H)
- Y gallu i ddatrys problemau technegol a gweithio fel tîm i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.
- Diddordeb a brwdfrydedd mewn theatrau a chelfyddydau.
- Ymagwedd hyderus a phroffesiynol, ac yn mwynhau rhwydweithio a meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r holl randdeiliaid.
- Meddwl yn flaengar ac yn gallu cyfrannu at nodau ac amcanion Awen drwy ei gweledigaeth a'i gwerthoedd brand.

# awen

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluedd a Phrofiad:

## (NODIR Y MEINI PRAWF HANFODOL FEL (H)):

- Addysg o safon dda, cyfwerth ag NVQ/OCF 2, neu'r gallu i ddangos cymhwysedd drwy brofiad (H)
- Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau a rheoli amser yn dda (H)
- Cymhwyster perthnasol sy'n gysylltiedig â theatrau/technoleg fyw neu'r gallu i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd (H)
- Profiad o weithio mewn theatrau/amgylchedd digwyddiadau byw ar ôl defnyddio o leiaf un agwedd ar dechnoleg byw gan gynnwys, goleuadau, sain, cyfryngau clyweledol a rheoli llwyfan (H)
- Y gallu i godi, symud a chario llwythi/stoc ac offer/eitemau eraill yn ôl yr angen (H)
- Gwybodaeth am reoliadau iechyd a diogelwch ar gyfer theatrau a dealltwriaeth ohonynt, a gwybodaeth ddigonol, fyw, hyderus o systemau gweithredu TG.
- Profiad o weithio mewn lleoliad aml-swyddogaeth.
- Profiad gyda meddalwedd Qlab / Zero88 / ETC.
- Yn gallu siarad Cymraeg.

# awen